

Ffurflen Newid i Ddatganiad o Fuddiant i Gynghorwyr, Aelodau Cyfetholedig ac Uwch-swyddogion

Mae Côt y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yn ei gwneud yn ofynnol i bob "trafodiad partïon perthynol" gael ei ddatgelu yn y Datganiad o Gyfrifon. Rhaid i unrhyw ddatgeliad gynnwys unrhyw drafodion rhwng Cynghorwyr ac endidau eraill (sydd naill ai'n cael eu rheoli gan Gynghorwyr neu lle mae gan Gynghorwyr ddylanwad sylweddol) gyda'r cyngor. Mae'r gofynion hyn hefyd yn estyn i aelodau agos o deulu'r Cynghorwyr.

Er enghraifft, gallwch chi (neu aelod agos o'r teulu) fod yn berchen ar gwmni neu fod yn ymddiriedolwr elusen sydd â chontractau gyda'r cyngor neu'n gwneud busnes gydag ef. Yn yr un modd, gallwch chi (neu aelod agos o'r teulu) fod yn gwneud swydd uwch mewn sefydliad gwirfoddol sydd â chontractau gyda'r cyngor neu sy'n derbyn cyllid gan y cyngor. Mae'r rhain yn "drafodion partïon perthynol".

Mae Côt Ymddygiad yr Aelodau (sydd wedi'i gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor) yn cyfeirio at y ffaith mai cynghorwyr sy'n gyfrifol am gofrestru unrhyw fuddiannau o'r math hwn sydd **ganddynt** (cyfeirir atynt yn gyffredin fel buddiannau paragraff 10(2)(a). Fodd bynnag, er eich bod yn derbyn ceisiadau'n rheolaidd gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd i ddiweddarau'ch datganiadau o fuddiannau, mae archwilwyr y cyngor wedi nodi nad yw'r ffurflenni Datganiad o Fuddiant a gwblheir gan Gynghorwyr, Aelodau Cyfetholedig ac Uwch-swyddogion yn cynnwys unrhyw ymholiadau ynghylch buddiannau aelodau agos o'r teulu.

Felly, mae'r archwilwyr wedi argymhell bod y ffurflen Datganiad o Fuddiant yn cael ei diweddarau i gynnwys ysgogiad i Gynghorwyr, Aelodau Cyfetholedig ac Uwch Swyddogion ddatgelu unrhyw fuddiannau aelodau agos o'r teulu lle bo angen. Yna defnyddir y Gofrestr i nodi unrhyw "drafodion partïon perthynol" at ddibenion y Datganiad Cyfrifon.

Cynigir y bydd Ffurflenni Datganiad o Fuddiannau yn y dyfodol yn cynnwys cyfeiriad at Gynghorwyr yn datgelu natur unrhyw endidau sy'n eiddo i aelodau agos o'r teulu / sy'n cael eu rheoli gan aelodau agos o'r teulu ac sy'n trafod gyda'r cyngor. Bydd troednodyn a blwch ar gyfer datgan unrhyw fuddiannau o'r fath yn cael eu hychwanegu fel ysgogiad.

Er mwyn helpu, byddai enghreifftiau o fuddiannau teulu agos yn cynnwys:

- Mae gwraig y Cynghorydd D yn gyfranddaliwr mawr mewn cwmni sy'n contractio gyda'r cyngor.
- Mae merch y Cynghorydd X mewn sefyllfa lle mae ganddi ddylanwad o fewn sefydliad gwirfoddol sy'n derbyn grantiau ac sy'n darparu gwasanaethau i'r cyngor.
- Mae partner y Cynghorydd Y yn darparu gwasanaethau ymgynghori i'r cyngor.

Tracey Meredith - Swyddog Monitro
15.02.2021